# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

Ionawr 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 4

## Blwyddyn Newydd Dda!

Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gefnogwyr! Daliwch ati i anfon newyddion ac erthyglau atom ni fel ein bod yn gallu dathlu deng mlynedd arall o'n cylchgrawn. Croeso i chi anfon unrhyw awgrymiadau a chyfraniadau. Diolch i chi i gyd, gan ddymuno iechyd da a hapusrwydd yn 2026.

## Ychydig o uchafbwyntiau 2025

### Mai: Gwobrau i fusnesau lleol




### Mehefin: Enillwyr medalau Eisteddfod yr Urdd




### Gorffennaf: Ysgol Bryn Clwyd yn codi gwên



### Medi: Y Sioe Flodau a Chynnyrch



### Tachwedd: Gwobrau haeddiannol



# Newyddion y pentre

**Cydymdeimlwn** â Glyn Williams, Ty'n Caeau ar golli ei chwaer, Nerys Thomas o Gaerwys.

**Croeso** i'r pentre i Lois a Tim Kingsnorth, Parc Tynllan, ac i Mike Hughes a'r teulu yn ôl i Ben-y-palmant. Hefyd croeso'n ôl i'r pentre i Buddug Foulkes yn ei chartref newydd yn Nant Glyd.

**Dymuniadau da** i Wyn Wilson am wellhad buan ar ei chodwm.

**Diolch** i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at Gymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan. Codwyd £414 tuag at ariannu projectau'r gymdeithas.

**Porthmona modern:** Yn ddiweddar, gwelodd trigolion Llandyrnog enghraifft o arddull fodern porthmona. Tywyswyd gwartheg Pentrefelin Uchaf o Lan y Wern, ar hyd y briffordd, heibio'r capel a'r Kinmel Arms, tuag at groesffordd Pentrefelin. Yn ffodus aeth y fenter yn hwylus iawn, diolch i gydweithio da rhwng chwe fferm leol a thrigolion lleol.





**Cyfarchion pen blwydd** i Lyn Rose, Bwthyn Ffordd-ddŵr, ac i Margaret Roberts, yr Anchorage – y ddwy wedi dathlu'r un pen blwydd arbennig yn ddiweddar!

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i Elwyn ac Olga Evans ar ddathlu 71 o flynyddoedd o briodas.



Mae Mrs Menna Davies, Cilgwyn, yn anfon ei chyfarchion o gartref Cysgod y Gaer, Corwen ac yn dymuno'n dda yn 2026 i'w ffrindiau a'i chymdogion.

## Siop Llandyrnog

### Oriau agor y siop

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

### Oriau agor y swyddfa bost

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 5ed | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 6ed | Grŵp Cyfeillgarwch | 2pm |
| | Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 7pm |
| Gwe 9fed | Grŵp cwiltio | 1.30–3.30pm |
| Llun 12fed | Grŵp crefftau | 10am |
| Mer 14eg | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun 19eg | Grŵp crefftau | 10am |
| Maw 20fed | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 21ain | Tuesday Club | 2pm |
| Llun 26ain | Grŵp crefftau | 10am |


TY CEFFYL BACH

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**




# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun 5ed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 7fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 10fed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 12fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 13eg | Cyfarfod Pony Club | 7–9pm |
| Mer 14eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Llun 19eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 21ain | Y Gymdeithas Hanes | 7–9pm |
| Llun 26ain | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 27ain | Y Clwb Seryddiaeth | 7–9pm |
| Mer 28ain | Pilates | 7.15–8.15pm |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| Sul 4 | 11.15 | Boreol Weddi |
| Sul 11 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| Sul 18 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| Sul 18 | 11.15 | Cymun Bendigaid |

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**

becky.gittins.mp@parliament.co.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Capel Dyffryn





Pnawn Sul, 14 Rhagfyr cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r Ieuenctid. Cafwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd gan y plant yn adrodd yr hen, hen stori, gyda darlleniadau, gweddïau a chaneuon hyfryd oddi wrth yr ieuenctid.

Yna mwynhaodd pawb swper hyfryd yn y festri cyn i Siôn Corn ddod ag anrhegion i'r plant. Roedd y plant wedyn wrth eu bodd yn cael chwarae nifer o gemau – yr un hen ffefrynnau.  Diolchwyd i bawb gan Richard Davies

**Y Gymdeithas** Nos Lun 1 Rhagfyr cynhaliwyd Noson o atgofion ar ffilm yng ngofal Rod a Iestyn. Gwelwyd hen fideos a lluniau yn ystod 1980 a 1990au, o'r hen deithiau Nosweithiau Llawen o gwmpas yr ardaloedd. Croesawyd nifer o gyn-aelodau a ffrindiau i'r cyfarfod. Noson oedd yn dod ag atgofion hyfryd o'r cyfnodau cyffrous yn hanes y Gymdeithas.

**Gwasanaethau**

04/01 10.00 Sul Bro - Trefnant
11/01 **2.00** Cyfarfod Gweddi'r Gymdeithas
18/01 11.00 Parch Andras Iago
25/01 **5.00** Parch Morris Puw Morris

# *If in doubt, flat out*

Pan holwyd Colin McRae am ei arddull gyrru mewn ralïau, ei ateb yn ei acen arbennig Albanaidd a gyda gwên oedd, '*If in doubt, flat out*'.

Cafodd McRae ei eni yn 1987, ac yn 1995, ac yntau ddim ond yn 27 oed, ef oedd y pencampwr byd ieuengaf erioed – tan 2022. Roedd campau McRae yn ddiarhebol, gan alluogi tîm Subaru i ennill gwobr Gwneuthurwyr Pencampwyr Raliau'r Byd dair gwaith yn olynol – 1995,1996 ac 1997. Ar ôl hyn, aeth i yrru i Ford. Ond wrth yrru ei Subaru fe ddaeth yn enwog am fod yn gyflym ac yn ddi-ofn.

Yn anffodus iawn, cafodd ei ladd mewn damwain hofrennydd ger ei gartref yn 2007. Mae ei deulu wedi gorfod dygymod â'r ffaith fod ei fab ifanc gydag o ar y pryd, ac un o ffrindiau pennaf ei fab. Er ei fod yn gyfarwydd iawn â hedfan hofrennydd, roedd yn ceisio troi mewn man cyfyng iawn mewn cwm ac fe gollodd reolaeth ar yr hofrennydd. Ond dyma grynhoi ei agwedd at berygl. Roedd unwaith eto'n mynd â'r peiriant at ei eithaf, â'i agwedd, 'Tybed be ddigwyddith?'

Dydw i ddim yn hoff iawn o ralïo ceir cyffredin, a dweud y gwir. Ydw, dwi wedi sefyll mewn ambell goedwig yn cael cerrig a mwd wedi'u taflu ataf ddydd a nos, ond dwi'n hoff iawn o ralïau ceir clasurol a gallaf adnabod sŵn Mini Cooper o bellter mawr – mae'n sain arbennig iawn.

Beth bynnag, fe ges i gyfle i yrru Subaru a oedd wedi'i baratoi i'w yrru mewn rali, yr un fath â char McRae. Wrth gwrs, dyma fachu'r cyfle.

Pris injan sy'n addas i'w yrru mewn rali yw tua £30k. I fod mor ysgafn â phosib, mae popeth diangen wedi'u tynnu allan o'r car. Does dim blwch llwch, radio, *fluffy dice*, na *soundproofing* – dim byd.

Yn eu lle, mae seddi bwced caled iawn, caets rholio, harneisi, llwyth o wifrau, dau glustffon a theclynnau taenellu dŵr – petai'r car yn mynd ar dân neu'n troi drosodd, bydd y system yn gweithio ar unwaith. Mae'r deialau ar y




dashfwrdd ar yr un lefel â'r llygaid, a'r rhifydd cylchdroeon – y *rev counter* – yw'r un mwyaf amlwg, i ofalu eich bod yn cyrraedd y llinell goch ond ddim yn mynd drosti.

Roedd y lifer gêr yn ddiddorol iawn – heb fod yn y man isel arferol, ond tua 3 troedfedd oddi ar y llawr fel bod y gyrrwr yn gallu llithro'r lifer yn ôl ar yr olwyn yn gyflym iawn.

Roedd hi'n bwrw hen wragedd â ffyn, ond gan fod gyriant pedair olwyn parhaol ar y car, doedd gafael yn y ddaear ddim yn broblem. Roedd rhaid bod yn gywir iawn wrth anelu blaen y car. Wrth yrru ar ddiogelwch tarmac, roedd hi'n eitha hawdd dychmygu sut roedd y gyriant 4 x 4 parhaol yn hanfodol yn yr adrannau mwdlyd drwy fforestydd – gyda'r teiars iawn, wrth gwrs. Mae'r gerau'n anhygoel o agos i'w gilydd ac yn fanwl gywir. Yn wahanol i geir fel y Lamborghini a'r Ferrari, rydych chi'n cael y synnwyr o yrru go iawn. Fe wnes i fwynhau fy hun yn fawr.

Roedd yn gar 300hp – un cyflym iawn. Gallech, fe allech chi ei yrru ar y ffordd, yn un handi iawn i ddianc yn sydyn. Ond byddai rhu'r 300hp yn datgelu'r gyfrinach!

*Bryn Davies*

***Ffaith sy'n rhyw fath o gysylltu McRae â Dyffryn Clwyd: yn 1991, cafodd ei arwyddo gan bennaeth Prodrive, David Richards, i'w dîm Subaru ym Mhencampwriaeth Ralïo Prydain. Cafodd David Richards ei fagu ar fferm ger Llanfair Dyffryn Clwyd.***

# Hanesion Hazel

Ydych chi i gyd yn dadebru ar ôl dathlu'r Nadolig? Mae mis Ionawr yn gallu bod yn un digalon, gyda'r nosweithiau tywyll a'r tywydd oer, a does fawr o ddim yn digwydd yn fy ngardd. Ond meddyliwch am ein gerddi dan do a'r llu o blanhigion rydych hi'n gallu tyfu yn y tŷ a'u mwynhau.

Mae planhigyn mewn potyn yn gwella ansawdd yr aer o'n cwmpas drwy ryddhau ocsigen a hidlo tocsinau, ac mae'n gallu gwella'ch lles meddyliol drwy leihau straen a chodi'ch hwyl. Maen nhw'n edrych yn hardd ac yn rhoi rhyw deimlad o natur yn ein hystafelloedd, ond maen nhw'n gallu bod yn eitha drud. Fy nghyngor i yw i chi fynd i siop debyg i Lidl neu Home Bargains gan eich bod yn gallu cael planhigion yn eitha rhad yno. Mae'r rhai sy'n tyfu'r planhigion yn tueddu i roi tri phlanhigyn mewn un potyn, rhag ofn i un neu ddau farw. Gallwch roi'r rhain mewn potiau ar wahân ac fe gewch chi dri phlanhigyn ardderchog.



Rhoddodd fy mrawd Yucca i fi ryw 30 mlynedd yn ôl, ac mae wedi tyfu'n fawr. Mae'n hoffi'r haul uniongyrchol o ffenest patio sy'n wynebu'r de, ac rydw i'n tueddu i anghofio rhoi dŵr iddo. Yn ffodus, mae'n ffynnu ar ddiffyg dyfrio. Efallai bydda i'n cymryd ambell doriad oddi arno. Dwi heb wneud hyn erioed, ond mae'n debyg eich bod yn gallu torri sawl darn 3–7 modfedd o'r coesyn aeddfed, tynnu'r dail oddi arno, gadael iddo sychu, a'i blannu mewn pridd sydd wedi'i draenio'n dda.

Sawl un ohonoch chi sydd wedi cael poinsetia eleni, sydd erbyn hyn yn edrych yn druenus, gyda'r dail yn gwywo a changhennau noeth yn dod i'r golwg. Peidiwch â rhoi'r bai arnoch chi'ch hun. Mae'r planhigion hyn yn dod o goedwigoedd trofannol Mecsico ac America Ganol, lle maen nhw'n tyfu fel llwyni ac wedi arfer ag amodau cynnes a llaith. Yn bendant, dydyn nhw ddim yn hoffi drafft. Mae gwerthwyr yn tueddu i roi'r planhigion hyn wrth fynedfa eu siopau, felly mae'r planhigion druain yn diodde'r aer oer cyn eich bod hi wedi'u rhoi nhw yn eich troli, hyd yn oed. Mae rhai gwerthwyr yn rhoi'r planhigion hyn yn y siopau rŵan.

Llynedd fe brynais i fy mhoinsetia arferol a'i roi yn yr unig ystafell heb ddrafft – y stafell 'molchi i fyny'r grisiau. Cafodd yr ystafell yma ei hadnewyddu ychydig flynyddoedd yn ôl a chafodd ffenest newydd wydr dwbl. Wel, mae'r planhigyn yn dal yn fyw flwyddyn yn


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Hanesion Hazel



ddiweddarach, a dwi wedi sylw ar ambell fract yn dod i'r golwg. Dail wedi'u haddasu ydy'r rhain ac maen nhw'n amgylchynu'r blodau melyn mân. Mae rhai coch, gwyn a phinc, hyd yn oed, sy'n newid eu lliw oherwydd proses o'r enw ffotogyfnodedd. Mae angen cyfnod hir o dywyllwch ar y planhigyn i roi'r lliw coch i'r bractau. Dwi'n byw mewn lle heb oleuadau stryd, felly mae'r planhigyn yn gwneud ei orau i dyfu'r bractau gwyn, ond os ydych chi am gael bractau lliwgar erbyn diwedd y flwyddyn, dyma ambell air o gyngor am sut i ofalu am eich poinsetia:

- Tociwch y planhigyn yn y gwanwyn a thorrwch y coesynnau yn ôl i ryw 10–15cm
- Rhowch o mewn potyn newydd ym mis Mai, gyda chompost amlbwrpas heb fawn
- Drwy gydol yr haf, cadwch o mewn man â digon o olau, ond heb fod yng ngolau'r haul yn uniongyrchol, a rhowch fwyd iddo bob mis
- O ddechrau mis Medi, rhowch 12–14 awr o dywyllwch llwyr iddo bob nos (h.y. mewn cwpwrdd) am 8–10 wythnos, yn ei gadw'n gynnes ar 18 °C. Yna dewch â'r planhigyn allan a'i mwynhau.

Dewch i ni weld faint ohonon ni fydd yn gallu cynnal ein poinsetias Nadolig yn 2026.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

Hazel

# Y Clwb Garddio

Er iddi fod yn un o nosweithiau mwyaf gwyntog y flwyddyn, diolch i storm Bram, roedd pedwerydd cyfarfod y clwb yn un diddorol iawn. Doedd hi ddim yn noson i adael clydwch eich cartref, a dweud y gwir, ond roedd hi'n braf iawn gweld un ar ddeg o aelodau'n dod i'r cyfarfod.

Cawsom gwis gan Graham Pickles o ganolfan arddio Green Fingers, ond roedd hi'n fwy na dim ond cwis. Daeth â sawl eitem i ni geisio'u hadnabod, gan gynnwys planhigion, llwyni a llysiau gyda disgrifiad a hanes diddorol iawn i'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Roedd y wybodaeth am y daten a'r foronen gyffredin yn ddiddorol iawn.

Ydych chi'n gwybod beth yw'r rheol PARSNIP* neu o ble ddaeth tatws, a sawl math gwahanol ohonyn nhw sydd? Rydyn ni'n gwybod rŵan! Roedd y cyfarfod yn noson ysgafn ac yn llawn gwybodaeth, a phawb o'r farn eu bod wedi dysgu llawer – diolch, Graham, am eich holl waith.

Enillwyr y cwis oedd Richard, Hywel a Gwenan. Rydyn ni'n ddiolchgar i Huw a Veronica am roi gwobr y raffl, a'r enillydd oedd Ceri Pickles. Daeth y noson i ben gyda lluniaeth, mins peis a sgwrs, wrth gwrs.

Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fawrth, 13 Ionawr yn ystafell isaf Neuadd y Pentre am 7 o'r gloch – croeso i bawb. Bydd John Rowlands yn dangos PowerPoint ar hanes pys pêr, eu tyfu a'u dangos. Nos Fawrth, 10 Chwefror, bydd Allan Evans yn trafod tyfu dahlias a'u dangos.

*Acronym yw PARSNIP – *politics, alcohol, religion, sex, narcotics, -isms,* a *pork*. Mae'r rhain yn cyfeirio at y pynciau tabŵ bondigrybwyll yn yr ystafell ddosbarth. Mae nifer o athrawon o'r farn y gallai'r rhain wneud i fyfyrwyr deimlo'n anghyfforddus neu eu sarhau, oherwydd materion personol neu ddiwylliannol.

# Rysáit

### *Chocolate Chip Cookies*

115 gram o fenyn, wedi'i feddalu
90 gram o siwgr brown
50 gram o siwgr gwyn
1 wy
½ llwy de o rin fanila
150 gram o flawd
½ llwy de o halen
½ llwy de o soda pobi
180 gram o siocled wedi'i dorri'n fân

Cymysgwch y menyn a'r siwgr, wedyn ychwanegwch yr wy a'r rhin fanila. Ar ôl cymysgu'r rhain yn dda, ychwanegwch y cynhwysion sych. Yn olaf, ychwanegwch y siocled.
Rhowch y cymysgedd fesul llond llwy fwrdd ar hambwrdd pobi, gyda digon o le rhyngddyn nhw (8–12 ar y tro), a'u pobi ar silff ganol popty am ryw 10–12 munud ar 180 °C.

*Jaymie Davidson*

*Diolch i Jaymie, am y rysáit – mae'r siop newydd ei chyflogi i baratoi prydau ysgafn dros amser cinio. Gan ei bod hi'n dod o America, mae hi wedi dewis rysáit sy'n ffefryn mawr yn ei gwlad enedigol.*




Gwylio Adar yr Ardd

23-25 Ionawr 2026

# Gwylio Adar yr Ardd

Gwylio Adar yr Ardd yw arolwg bywyd gwyllt mwyaf y byd mewn gerddi. Bob blwyddyn, mae cannoedd o filoedd o bobl sy'n caru natur yn cymryd rhan, gan helpu i greu darlun o sut mae adar yr ardd yn ymdopi. Ewch i https://www.rspb.org.uk/cy-gb/whats-happening/big-garden-birdwatch i gofrestru.

# Grŵp Cyfeillgarwch

Roedd cyfarfod mis Rhagfyr y Grŵp Cyfeillgarwch yn ginio Nadolig ym mwyty The Cherry Pie, lle mwynhaodd pawb bryd hyfryd a chwmni da. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Margaret Roberts a fyddai'n dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar 28 Rhagfyr. Bydd yn dathlu'r achlysur trwy ymweld â'i theulu yn y Bahamas.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Ionawr 6 am 2 o'r gloch y prynhawn. Sylwch na fydd cyfarfodydd gyda'r hwyr tan yn hwyrach yn y flwyddyn.

# Trefoil Guild

Cafodd y Trefoil Guild ginio Nadolig blasus yn y Griffin, Llanbedr DC. Cyfrannodd yr aelodau £5 yr un at yr elusen NEWCIS, yn lle cael Santa Cudd – mae'r elusen hon yn cefnogi gofalwyr.

Bydd y cyfarfod nesa ym mis Chwefror mewn cyfarfod sir yn yr Wyddgrug, i nodi canmlwyddiant y World Association of Girl Guides and Girl Scouts, sy'n cefnogi prosiectau Geidiau ledled y byd.

# Y Gymdeithas Seryddiaeth

Fe gawsom noson glir ar gyfer ein cyfarfod ym mis Tachwedd, gydag aelodau'n gosod eu telesgopau ac yn mwynhau golygfeydd gwych o'r lleuad cyn iddi fynd o'r golwg y tu ôl i'r cymylau. Fe welwyd Triongl yr Haf, Cygnus, y blaned Iau a'i lleuadau, ac roedd yr aelodau'n gallu tynnu lluniau o'r gofod pell gydag astrocam. Wedyn cafwyd sgwrs gyda phaned boeth a chyfle i edrych ar ddeunydd darllen.

Roedd sesiwn galw heibio yn siop y pentre ddydd Sadwrn, 13 Rhagfyr. Bydd y sesiynau hyn yn digwydd yn rheolaidd pan fydd rhai sy'n hoffi syllu ar y sêr yn gallu galw heibio i drafod telesgopau, *aurora* a diffygion ar yr haul, a phob math o themâu seryddol. Diolch yn fawr iawn i Emma am ein croesawu gyda diod boeth a bap cig moch. Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol am ragor o wybodaeth gan ein bod ni'n bwriadu cael sesiwn debyg arall ym mis Ionawr.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ystafell isaf Neuadd y Pentre nos Fawrth, 27 Ionawr am 7 o'r gloch. Gobeithiwn am awyr glir i edrych ar y sêr a bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn, wrth i ni ddysgu rhagor am Dorothea Klumpke Roberts. Hi oedd y ferch gyntaf i gael gradd uwch mewn seryddiaeth, gyda thraethawd estynedig am gylchoedd Sadwrn, ym Mhrifysgol Paris yn 1893.




Mae llawer iawn i edrych ymlaen ato yn 2026 felly, 'Cadwch eich golygon ar i fyny', bawb!

# Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i David Davies o Ddinbych ar chwarae am y tro cyntaf ym Mhencampwriaeth Dartiau'r Byd y Gorfforaeth Dartiau Proffesiynol. Roedd Dai yn gyn-gapten yr ail dîm a enillodd y gynghrair a'r gwpan.



O'r chwith: Jimmy McNally, Gareth O'Loughlin, Dai Davies. Diolch i Glwb Pêl-droed Llandyrnog United am y llun.

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae mis Rhagfyr wedi rhoi cyfle i ni dreulio amser gyda llawer o aelodau'r gymuned. Coginiodd Mrs Tynan Ginio Nadolig hyfryd arall i'r plant a 40 aelod o'r gymuned a ymunodd â ni. Cawsant hefyd gipolwg ar rai o'r caneuon ar gyfer ein cyngerdd Nadolig yng ngolau cannwyll.



Ymwelodd rhai o Ddosbarth Hedfan â chartref gofal preswyl Dolwen i ganu carolau.



Mae Dosbarth Tyfu'n brysur yn gofalu am ein hegin-blanhigion coed derw sy'n tyfu. Efallai eich bod yn gwybod mai derwen yw logo ein hysgol, a'r hydref hwn buom ni'n casglu mes o gae'r ysgol a'u plannu. Rydym yn gobeithio eu rhannu gyda'r gymuned pan fyddant wedi tyfu.

YSGOL BRYN CLWYD

# Gwarchod natur

Mae'r Cyngor Cymuned ar hyn o bryd yn ysgrifennu adroddiad ar ein gwaith i ddatblygu bioamrywiaeth yn y pentre. Fel rydych chi'n gwybod, mae bylbiau wedi'u plannu ar ochrau'r ffyrdd ac yng Nghae Nant, blodau gwyllt o gwmpas y fainc ar groesffordd Celynog, a'r bocsys blodau lliwgar ar y gylchfan. Mewn partneriaeth â chyn-aelodau Sefydliad y Merched, roedd basgedi crog wedi'u gosod yn ystod yr haf, ac mae'r gwely blodau sy'n denu gwenyn yn dal i wneud hynny yng Nghae Nant.

Mae ein gwaith ar hel sbwriel ac arwyddion am beidio â gollwng sbwriel hefyd yn helpu bywyd gwyllt, yn ogystal â'r perlysiau sydd wedi'u plannu yn y rhandiroedd.

Ein nod yw plannu mwy o rywogaethau cynhenid a datblygu rhagor o gynefinoedd i fywyd gwyllt, gyda bocsys i ystlumod a gwenoliaid duon. Hefyd, plannu gwrychoedd cynhenid a datblygu ychydig o leiniau gwyllt i helpu trychfilod bach – edrychwch am dwmpathau boncyffion coed a drysau i ddraenogod hefyd!

Cawsom ni becyn o fylbiau drwy Un Llais Cymru a bu eco-gyngor yr ysgol yn helpu i'w plannu ym Mharc Ty'n Llan o dan gyfarwyddyd Sam, swyddog bioamrywiaeth Gogledd Cymru.

Yn y Gwanwyn byddwn yn gweld cennin Pedr gwyllt, lilis y dyffryn, cennin Pedr Penfro, brithegion – *fritillaries*, blodau'r gwynt – *wood anemones*, eirlysiau a chlychau'r gog yn dod i'r golwg o gwmpas ymylon y llain glaswellt. Bydd y rhain yn brydferth ac yn annog bywyd gwyllt.

Byddwn yn rhannu syniadau â chi ynghylch sut i wneud eich gerddi'n fwy bioamrywiol gyda rhywogaethau cynhenid, pyllau bach o ddŵr, ac yn parhau i gydweithio â'r holl grwpiau yn y gymuned i weithredu ein cynllun bioamrywiaeth newydd.

# Y Gymdeithas Hanes

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fercher, 21 Ionawr am 7 o'r gloch. Testun sgwrs Dr Chris Madoc Jones fydd 'Ystafelloedd coco – cestyll siocled y rhyfel dirwestol.'



Darperir lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson. Cost aelodaeth – £8 am raglen flynyddol o 4 cyfarfod, £3 y cyfarfod os nad ydych chi'n aelod. Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.

**Cyngor Sir Ddinbych**



**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

Mike Neumann
Printers Ltd

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



01745 814067
07766 807498

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk

# Tuesday Club

Cafodd aelodau'r Tuesday Club ginio Nadolig hynod flasus yn y Drovers Arms, Rhewl. Diolchwyd i Sion a Sam a'r staff am eu croeso cynnes a'r bwyd ardderchog.

Yng nghyfarfod nesa'r clwb byddwn yn cael sgwrs am yr elusen Stand, sy'n gweithio i wella bywydau rhai ag anghenion ychwanegol ac anableddau. Croeso i chi ymuno â ni yn yr Ystafelloedd Coco am 2 o'r gloch, bnawn dydd Mercher, 21 Ionawr.





# Golwg yn ôl ar 1977

Roedd y llun hwn yn rhan o adran Looking back... y *Denbighshire Free Press*. Cadetiaid Ambiwlans St Ioan Llandyrnog sydd yn y llun, yn derbyn siec gan Mrs Brenda Williams. Gyda help ffrindiau ar Facebook a Gwilym Evans, mae pawb yn y llun wedi'u henwi. Diolch i Claire Pierce a'r *Denbighshire Free Press* am ganiatâd i ddangos y llun.



Y rhes flaen, o'r chwith: Anthony Evans, Kelvin Evans, Pete Mazurek, Stephen Jones, Alan Vaughan, Paul Evans, Alun Rogers
Y rhes ganol: Wyn Morris, Pete Evans, Ian Wilson, Nigel Tynan, Carl Jones, Ian Jones, Paul Mazurek, Gareth Cooke
Y rhes ôl: Clive Jones, Willie Plumb, Brenda Williams, Hughie Plumb, T.H. Evans, Gwilym Evans

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn – rydym yn gwerthfawrogi pob erthygl**

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

**MATERION A DRAFODWYD YNG NGHYFARFOD MIS RHAGFYR**

- ⇒ Roedd hi'n siomedig nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gallu helpu gyda'r parcio anystyriol yn y pentre, ac yn ei ystyried yn fater i adran briffyrdd yr awdurdod lleol. A hyn er bod yr heddlu wedi ymweld â'r pentre sawl gwaith ac wedi gweld y parcio anystyriol.
- ⇒ Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun bioamrywiaeth a fydd yn cael ei anfon at Un Llais Cymru a'i gyhoeddi ar y wefan cyn bo hir. O ganlyniad, bydd bioamrywiaeth yn ystyriaeth ganolog wrth wneud unrhyw benderfyniad a bydd yn cynnwys materion ymarferol – plannu planhigion ychwanegol, bocsys adar, a.a. Mae'r ysgol eisoes wedi bod yn rhan o'r cynllun a disgyblion wedi plannu bylbiau'r gwanwyn ym Mharc Ty'n Llan. Diolchwyd i Jane am alluogi dechrau'r project a chael yr arian angenrheidiol drwy Cadwch Gymru'n Daclus.
- ⇒ Roedd pedwar trosedd wedi'u cofnodi ers cyfarfod diwetha'r Cyngor, a oedd yn cynnwys:
    - ⇒ Dau ddigwyddiad o ymddygiad anghymdeithasol rhwng oedolion
    - ⇒ Oedolyn bregus ar goll, ond cafwyd hyd iddo a doedd dim angen gweithredu ymhellach
    - ⇒ Pryderon am ddiogelwch ar y ffyrdd – rhoddwyd gair o gyngor i'r rhai yn y digwyddiad.
- ⇒ Penderfynwyd holi Sarjant Carrington o Heddlu Gogledd Cymru i weld a oes pecynnau SmartWater ar gael i'w defnyddio yn y gymuned, ac efallai defnyddio'r siop fel man i'w ddangos ar waith, neu weithdy ar sut i'w ddefnyddio. Dydy lleidr ddim yn gallu gweld SmartWater ac mae'n cael ei ddefnyddio i roi manylion cyswllt ar eitemau gwerthfawr. Mae'n hawdd sganio eitem os oes amheuaeth ei bod wedi'i dwyn, neu os yw'r perchnogion wedi'i hadnabod. Caiff hefyd ei ddefnyddio ar bethau mwy costus fel beiciau, beiciau pedair olwyn, ac e-feiciau.
- ⇒ Mae'r Pwyllgor Ariannu wedi cyfarfod ac wedi paratoi cyllideb ddrafft. Cymeradwyodd y Cyngor hon ac mae'n mynd i ofyn am £14,091 o bresept gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae hyn yn debyg i geisiadau gan gynghorau cymuned cyfagos a bydd yn talu am gostau cyffredinol y cyngor.
- ⇒ Ystyriodd y Cyngor ddau gais cynllunio:
    - ⇒ Dwy ffenest ddormer i du ôl Treborth, ac un ffenest ddormer i'r tu blaen – gwelliant sylweddol ar y cais blaenorol a doedd dim gwrthwynebiad iddo
    - ⇒ Estyniad i du blaen Fron Haul, Llangwyfan, yn lle dau bortsh. Yn anffodus roedd y Cyngor Cymuned wedi methu ymateb o fewn y cyfnod o 21 diwrnod, ac roedd y cais wedi'i gymeradwyo. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn falch o weld bod y cais wedi'i addasu'n sylweddol i fod yn fwy addas i'r bwthyn a statws AHNE yr ardal.
- ⇒ Mae clerc hurio'r Ystafelloedd Coco wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith ar ôl sawl blwyddyn o wasanaeth ffyddlon a chyfeillgar. Penderfynwyd hysbysebu i weld a oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y gwaith.

  Mae ystafell uchaf yr Ystafelloedd Coco wedi'i chlirio ac mae teclyn newydd i ferwi dŵr wedi'i osod yn y gegin.
- ⇒ Mynegwyd pryderon am gyflwr wyneb y ffordd rhwng Celynog a'r Kinmel Arms.

# Cyngor Cymuned Llandyrnog: parhad

Y farn oedd bod hyn wedi'i gynnwys yn rhaglen cyfalaf CSDd a bod y ffordd yn cael ei thrwsio dros dro yn y cyfamser – y Clerc i fynd ar ôl y mater.

⇒ Yn sgil cyfarfod o'r Cyngor Sir, cafwyd gwybod ei bod yn ddigon posib y bydd cymunedau gwledig yn cael cais i gyfrannu tuag at gyfleusterau yn y trefi marchnad, e.e. llyfrgelloedd, toiledau. Bydd y mater yn cael ei drafod os bydd cais yn dod.

⇒ Mae'r Cyngor wedi cael grant loteri o £19,999 tuag at offer chwarae synhwyraidd yng Nghae Nant ac wedi'i roi yn y banc. Disgwyl cadarnhad o ganlyniad cais am grant o £10,000 gan Fferm Wynt Clocaenog yw'r cam nesaf, i alluogi'r cynllun i fynd yn ei flaen.

**Yn dilyn y cyfarfod daeth y newyddion gwych bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn y cais am gymhorthdal o £10,000 gan Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn bwrw 'mlaen â'r cynllun gwerth £30,000 yn fuan yn y Gwanwyn.**



Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr a fu'n helpu i godi'r goeden Nadolig. Diolch yn fawr i Emma a'i staff yn y siop am y lluniaeth wedyn!



# CPD Llandyrnog

**Gemau mis Ionawr**

Pob un yn dechrau am 2 o'r gloch

**3ydd** Gartref: Henllan

**10fed** Oddi cartref: Llysfaen

**17eg** Gartref: Prestatyn Sports

**24ain** Oddi cartref: Crozzy

**31ain** Gartref: Prestatyn Wanderers

Cefnogwch eich tîm lleol!

# Arferion y Flwyddyn Newydd ledled y byd



Mae pobl Puerto Rico yn credu bod taflu bwcedaid o ddŵr allan o'r ffenest yn gyrru ysbrydion aflan oddi yno. Maen nhw hefyd yn sgeintio siwgr y tu allan i'w tai i wahodd lwc dda i ddod i'r tŷ.



Yng ngwlad Groeg mae gwesteion yn bwyta *vasilopita*, math o gacen neu fara melys â darn o arian ynddo. Bydd pwy bynnag sy'n cael hyd i'r arian yn cael lwc dda am y flwyddyn nesa.



Ym Mrasil y gred yw y cewch chi fwy o lwc os ewch chi i mewn i'r môr a neidio dros saith ton – un i bob un o ysbrydion duwiol crefydd Umbanda. Rydych hefyd yn cael un dymuniad gyda phob ton.



Yn Nenmarc yr arfer yw sefyll ar gadair a 'neidio' i'r flwyddyn newydd wrth i'r cloc daro canol nos. Fe gewch chi lwc dda os gwnewch chi hyn – a mwy byth os nad ydych chi'n syrthio ar eich wyneb, a lwc ddrwg os byddwch chi'n anghofio neidio.



Yng Ngholombia, mae pobl yn rhedeg mor gyflym â phosib rownd y bloc, gan arwain gyda'r droed dde a chario ces dillad gwag. Mae hyn i fod i warantu blwyddyn o deithio.



Roedd y Nadolig wedi'i wahardd yn Rwsia Sofietaidd, felly'r flwyddyn newydd oedd yr achlysur mawr i roi anrhegion yn ystod yr adeg honno. Nid Sion Corn fyddai yn danfon yr anrhegion, ond Ded Moroz, neu Dadi Rhew. Yn aml, byddai ei wyres, Snegourochka yn ei helpu.



Ar Ynysoedd y Philipinau, yr arfer yw bwyta dwsin o ffrwythau crwn, un i bob mis, i sicrhau blwyddyn o ddigonedd. Fel arfer bydd y ffrwythau ar ganol y bwrdd ar gyfer y *media noche*, neu'r pryd ganol nos.